

Penodi Ymddiriedolwr

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn creu gwerth diwylliannol ac economaidd i bobl Cymru trwy arwain a chydweithio. Rydym yn symud rhwystrau at wybodaeth, datblygu sgiliau i greu gwybodaeth a chadw'r wybodaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r Llyfrgell yn awyddus i benodi Ymddiriedolwr newydd a manteisio ar y cyfle hwn i fynd i'r afael ag anghydbwysedd amrywedd y Bwrdd, yn ogystal â cheisio gweld fod gennym Fwrdd mwy cynrychioliadol o'r amrywiol gymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.



"So! Beth sydd yn gwneud i chi feddwl y gallwch chi helpu'r Llyfrgell ymestyn allan i'r cyhoedd?"

Fel aelod o'r Bwrdd byddwch yn mynd ati'n egnïol a brwdfrydig i roi arweiniad strategol i'r Llyfrgell, ei helpu i ddarparu gwasanaeth o'r radd flaenaf, wynebu ei heriau'n greadigol, craffu ar ei pherfformiad a'i gwneud yn fwy perthnasol i gymunedau amrywiol eu hangen.

Byddai'n dda medru penodi unigolyn sydd â phrofiad o weithio yn un o'r meysydd canlynol; adnoddau dynol, y gyfraith, rheoli adeiladau, digido, cyfryngau a darlledu, codi arian, codi incwm, cynaliadwyedd a rhwydweithio rhyngwladol, ond nid yw hynny'n angenrheidiol.

Nid yw Ymddiriedolwyr yn derbyn tâl, ond byddwn yn ad-dalu costau teithio a chostau rhesymol eraill. Gwneir y penodiad mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru a bydd yn seiliedig ar deilyngdod yn dilyn cystadleuaeth deg, agored a thryloyw ac am gyfnod o bedair blynedd o 1 Chwefror 2022.

Cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd yn Gymraeg a Saesneg a gall Ymddiriedolwyr weithio ym mha bynnag iaith y dymunant.

Os hoffech gael sgwrs anffurfiol am y cyfle cyffrous yma, medrwch gysylltu â Carol Edwards, (Rheolwr Llywodraethiant) ar 01970 632923 neu ar carol.edwards@llyfrgell.cymru. Mae croeso i chi hefyd ymweld â'r Llyfrgell am sgwrs gyda'r Prif Weithredwr.

I ymgeisio am y rôl, dylech anfon CV a llythyr yn nodi sut yr ydych yn cwrdd â'r manyleb ar gyfer y rôl at Carol Edwards ar y cyfeiriad uchod. Ceir mwy o wybodaeth am y Llyfrgell, gan gynnwys ei dogfennau llywodraethu, ar ein gwefan;

<https://www.llyfrgell.cymru/am-llgc/llywodraethiant/llywodraethiant-llgc>

Y dyddiad olaf y derbynnir ceisiadau yw **4.00 o'r gloch ar 17 Tachwedd 2021** .

Bydd cyfweiliadau'n cael eu cynnal ar **1 Rhagfyr 2021**.

www.llyfrgell.cymru

